Robert Jermain Thomas, 1839–66

Cenhadwr Cristnogol Protestannaidd cyntaf Corea

Ganwyd Robert Jermain Thomas ar 7 Medi 1839, yn fab ieuengaf Robert Thomas a oedd yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Rhaeadr Gwy. Pan oedd yn naw oed fe symudodd gyda'i rieni i Lanofer, Mynwy, a derbyniwyd ef yn aelod cyflawn o'r eglwys pan oedd yn bymtheg oed. Treuliodd dair blynedd yng Ngholeg Llanymddyfri lle y disgleiriodd fel ieithydd amryddawn wrth ddysgu Groeg, Lladin a Ffrangeg. Gweithiodd am flwyddyn fel athro cynorthwyol gydag Albert Newth – gweinidog Annibynnol – yn Oundle, swydd Northampton, ac yna fe'i derbyniwyd i'r New College yn Llundain lle'r enillodd radd BA ym 1863. Yn yr un flwyddyn fe'i hordeiniwyd yn Llanofer i wasanaethu gyda Chymdeithas Genhadol Llundain (LMS) fel cenhadwr yn Tsieina. Priododd â Caroline Godfrey, merch ffarm o Oundle a hwyliasant i Shanghai gan lanio yno ym mis Rhagfyr 1863. Aethant i fyw i gartref William Muirhead, cenhadwr a oedd yn prysur ddysgu dwy o ieithoedd Tsieina. Ergyd drom iddo oedd marwolaeth ei wraig y flwyddyn ddilynol ar enedigaeth eu plentyn cyntaf. Ym 1864 ymddiswyddodd o'i waith gyda'r Gymdeithas Genhadol.

Teithiodd i Beijing lle bu'n darlithio am gyfnod, ac yno cyfarfu â dau fasnachwr o Gorea a ddywedodd wrtho am yr erledigaeth a ddioddefai Catholigion yno. Pan glywodd nad oedd ganddynt Feiblau yng Nghorea penderfynodd ymuno â Chymdeithas y Beibl Cenedlaethol yn yr Alban er mwyn darparu rhai. Ym 1865 mentrodd i Gorea – a oedd yn gaeedig i estroniaid a thramorwyr – ac arhosodd yno am dri mis yn dysgu sylfeini'r iaith cyn dychwelyd i Tsieina. Ym 1866 bu gwrthdaro chwyrn yng Nghorea. Lladdwyd 30,000 o bobl a llofruddiwyd llawer o offeiriaid Catholig a'u dilynwyr, naw ohonynt yn offeiriaid o Ffrainc. Anfonodd yr awdurdodau Ffrengig lyngesydd i Gorea a

llwyddodd R.J. Thomas i gael lle ar y cyrch fel cyfieithydd a mordwywr. Glaniodd y llong mewn porthladd i gasglu cyflenwadau a hwyliodd ymaith gan adael R.J. Thomas ar ôl. Llwyddodd i gael lle fel cyfieithydd ar long arall, sef y *General Sherman*. Mae'r hyn a ddigwyddodd wedyn yn aneglur oherwydd bod dau fersiwn i'r hanes, ond mae un peth yn sicr, sef bod R.J. Thomas wedi ei ladd tua diwedd Awst 1866. Dywed un ffynhonnell ei fod yn gyfieithydd ar long Americanaidd a oedd ar gyrch i P'yongyang, Gogledd Corea. Ymosododd y Coreaid ar y llong oherwydd bod y criw wedi herwgipio swyddog o fyddin Corea a aeth ar fwrdd y llong i ofyn iddynt adael dyfroedd y wlad. Achubwyd y swyddog, dienyddiwyd y criw a llosgwyd y llong yn ulw.

Yr ail ffynhonnell yw adroddiadau gan filwyr Coreaidd oedd yn bresennol ar y pryd. Dywedodd un bod R.J. Thomas wedi neidio o'r llong â'i ddillad ar dân yn cydio yr ychydig Feiblau oedd ganddo'n weddill. Ceisiodd eu dosbarthu cyn iddo gael ei ddal. Dienyddiwyd y 24 o griw oedd ar y llong ynghyd â'i pherchennog, Mr Preston. Penliniodd R.J. Thomas gan gynnig ei Feibl coch olaf i'w ddienyddiwr. Caeodd ei lygaid, gweddïodd, a torrwyd ei ben i ffwrdd ac yntau ond yn saith ar hugain oed. Er y dryswch sydd ynglŷn â'i farwolaeth y mae'r eglwysi diwygiedig yng Nghorea yn ei ystyried fel y cenhadwr a'r merthyr Protestannaidd cyntaf yn eu plith a blannodd hadau'r eglwysi Cristnogol. Ym 1932 adeiladwyd capel coffa iddo y tu allan i P'yongyang.